



Consortium for Research in Deaf Education

Adroddiad Cymru 2020

Adroddiad CRIDE ar arolwg 2019/20 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru

Cyflwyniad

Yn 2020 cynhaliodd Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ei degfed arolwg blynyddol ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar¹ ym mlwyddyn academiaidd 2019/20². Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Mae CRIDE yn anfon arolwg byr a llawn bob yn ail o flwyddyn i flwyddyn gyda'r arolwg byr yn cynnwys nifer o gwestiynau thematig. Roedd arolwg 2020 yn arolwg byr. Mae hyn yn golygu nad yw rhai o'r data mwy manwl a oedd ar gael yn adroddiad 2019 ar gael yn yr adroddiad hwn.

Dosbarthwyd yr arolwg yn Chwefror 2020. Yn ystod cyfnod arferol, byddai'r arolwg yn para trwy chwe mis cyntaf y flwyddyn. Ond, ar ddiwedd mis Mawrth, oherwydd pandemig y coronafeirws caewyd ysgolion a achosodd amhariad sylweddol i weithrediad gwasanaethau addysg arbenigol i blant byddar. Yng ngoleuni hyn ac i roi'r cyfle i wasanaethau i ganolbwyntio ar ddarparu cymorth i blant byddar yn ystod y cyfnod eithriadol hwn, penderfynodd CRIDE beidio â mynd ar drywydd atebion yn y ffordd arferol. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r rheini a ymatebodd i'r arolwg a/neu a ddarparodd eglurhad er hyn.

O ganlyniad, mae'r gyfradd ymateb i'r arolwg hwn yn is nag ym mlwyddoedd diwethaf ac mae ymatebion gan rai gwasanaethau sy'n gweithredu mewn nifer o awdurdodau lleol ar goll o arolwg eleni. Mae'r dadansoddiad yn yr arolwg hwn wedi'i seilio ar ymatebion gan 11 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 12 allan o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol sydd yn gyfradd ymateb o 55%.

1 At ddibenion yr arolwg hwn, diffiniwyd 'plant byddar' fel pob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 mlwydd oed â byddardod synwyrnerfol a dargludol parhaol yn ôl disgrifiyddion Cymdeithas Awdioleg Prydain a BATOD. Defnyddiwn y gair 'byddar' i gynnwys pob lefel o fyddardod, o fân i lwyr.

2 Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn www.ndcs.org.uk/CRIDE neu ar wefan BATOD yn <https://www.batod.org.uk/information/cride-reports/>.

Dehongli'r canlyniadau

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa ar Ionawr 31 2020.

Mae'r arolwg yn cydnabod nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bu angen trwy'r arolwg. Nodir gan yr adroddiad hwn materion penodol a ddaeth i'r amlwg mewn rhai ardaloedd.

Ym mhob adroddiad CRIDE pwysleisiwn y dylai canlyniadau gael eu defnyddio â gofal yng ngoleuni anghysondebau yn y modd y mae gwasanaethau yn ymateb i gwestiynau'r arolwg. Mae'r ymwadiad hwn yn hyd yn oed mwy perthnasol eleni oherwydd y gyfradd ymateb is a'r amgylchiadau yr oedd gwasanaethau yn gweithio ynddynt ar adeg yr arolwg.

Noder bod pob canran yn yr arolwg hwn wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

Cynnwys

RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru.....	3
RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill	5
RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir	7
RHAN 4: Cwestiynau thematig: Ymyriadau cynnar i rieni plant byddar	8
RHAN 5: Cwestiynau thematig: Cyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar	10
RHAN 6: Cefndir a methodoleg.....	11
Atodiad A: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol.....	12
Atodiad B: Cymorth, rhaglenni neu hyfforddiant ymyriad cynnar a gynigwyd gan wasanaethau i rieni sydd â phlant byddar o 1 i 4 oed	13

RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru

Faint o blant byddar sydd?

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu³. Ymatebodd 11 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn. Yn seiliedig ar ymatebion hyn, cyfanswm y plant byddar yng Nghymru yw 1,384.

Oherwydd y gyfradd ymateb is hon, nid yw'n bosib gweld yn gywir a fu newid i'r ffigur cyffredinol o gymharu â blynyddoedd diwethaf. Er gwybodaeth, y ffigur yn 2019 oedd 2,486 pan dderbyniwyd ymatebion gan bob gwasanaeth yng Nghymru.

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 54 o blant byddar yn byw o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 260 o blant byddar. Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n byw mewn pob gwasanaeth oedd 126. Er gwybodaeth, roedd yn ffigurau hyn yn 55, 396 a 166 yn y drefn honno yn 2019.

Gofynnwyd i wasanaethau a fu unrhyw fylchau neu anawsterau hysbys yn y ffigur a ddarparwyd am nifer y plant a phobl ifanc byddar a oedd yn byw yn yr ardal lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Dywedodd pedwar gwasanaeth (36%) fod bylchau neu anawsterau hysbys. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nid yw'r gronfa ddata yn galluogi'r gwasanaeth i wahanu plant gyda byddardod parhaol neu dros dro
- Diffyg mynediad at wybodaeth am bobl ifanc ôl-16.
- Gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am ddisgyblion sy'n sy'n derbyn cymorth gan y tîm ar hyn o bryd yn unig.
- Darperir bylchau hysbys yn y wybodaeth gan awdioleg am barhauster byddardod.
- Gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy'n mynychu clinigau awdioleg a'r rheini sy'n gwisgo cymorth clyw yn unig.

Nifer y plant byddar ar lwythi achos gwasanaethau

Gofynnodd CRIDE hefyd am blant byddar ar lwythi achos gwasanaethau a oedd yn derbyn rhyw fath o gefnogaeth **mwy nag unwaith y flwyddyn**. Roedd enghreifftiau o gymorth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol ac athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Roedd gwasanaethau hefyd yn gallu cynnwys plant a oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth ond nad oeddent yn byw o fewn yr un ardal ddaearyddol â'r gwasanaeth hynny. Cynhwysir plant â byddardod dros dro yn y cwestiwn hwn hefyd.

Roedd ymatebion i'r arolwg gan 11 o wasanaethau yn dangos bod o leiaf 1,639 o blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau. Y nifer lleiaf o blant ar lwythi achos oedd 39 a'r uchaf oedd 303. Y cyfartaledd oedd 149 o blant.

³ Gofynnwyd i wasanaethau: Sawl plentyn sydd â byddardod parhaol sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu? Dylai'r atebion gynnwys: pob plentyn sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol uochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, yn defnyddio disgryfyddion BSA/BATOD. Ni ddylid cynnwys plant sydd â byddardod dros dro yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn. Pob plentyn byddar, ni waeth p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i gasglu'r wybodaeth hon. Plant sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'ch ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn eich ardal. Noder at ddibenion adran hon yr arolwg, defnyddiwn y term 'plant' i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 19 mlwydd ac 11mis (oni nodir yn wahanol yn y cwestiwn). Noder hefyd defnyddiwn y term byddardod parhaol i gynnwys y plant hynny sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwyllir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thafod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dyscinesia blewynnol cychwynnol.

O dan fyddardod dargludol dros dro, cynhwyswn y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwyllir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed.

Er bod yr arolwg yn gofyn am nifer y plant a oedd yn derbyn cymorth **mwyastron** unwaith y flwyddyn, dylid nodi bod rhai ymatebion yn awgrymu efallai bod rhai gwasanaethau wedi rhoi ffigur am blant sy'n derbyn cymorth unwaith y flwyddyn neu lai.

Gofynnodd CRIDE i wasanaethau am nifer y plant ar eu llwythi achos a oedd â cholled clyw dargludol dros dro. Ymatebodd 11 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn ac yn cofnodi bod 359 o blant â cholled clyw dargludol dros dro yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth yr oeddent yn gallu dweud wrthym amdanynt.

Os cofnodwyd 1,384 o blant â byddardod parhaol gan y gwasanaethau yng Nghymru a ymatebodd, a 1,280 gyda byddardod parhaol ar lwythi achos gwasanaethau, mae yna o leiaf 104 o blant byddar sydd ddim yn cael eu cefnogi gan wasanaeth mwyastron unwaith y flwyddyn. Hynny yw, awgryma'r ffigurau fod 92% o blant sydd â byddardod parhaol yn derbyn cymorth gan eu gwasanaeth lleol. Nid yw'n dilyn yn awtomatig bod 8% o blant sydd â byddardod parhaol ddim yn derbyn unrhyw gymorth o gwbl; efallai bod nifer fawr ohonynt yn derbyn cefnogaeth unwaith y flwyddyn gan wasanaeth, neu o rywle arall, er enghraifft, gan ysgolion arbennig i blant byddar y tu allan i Gymru neu ddarpariaeth adnoddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth.

RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau, yn benodol y rheini mewn swydd beripatetig, yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau a/neu'n gweithio mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol.

Mynega'r ffigurau fel swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI); er enghraifft, gall swydd Athro Plant Byddar CALI 0.5 awgrymu bod person yn gweithio fel Athro Plant Byddar am hanner 'wythnos waith' safonol.

Yn gyffredinol, cofnodwyd o leiaf 32.3 athro sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru yn yr 11 ymateb a dderbyniwyd. Llenwir 85% o'r swyddi hyn (27.5 CALI) gan Athro Plant Byddar cymwysedig gyda'r swyddi sy'n weddill wedi'u llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant (12%) neu athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol a heb gynlluniau i ddechrau hyfforddi tuag ato yn y dyfodol agos (3%).

Pan gyflawnwyd yr arolwg, cofnodwyd 0.5 swydd wag CALI gan un gwasanaeth. Os ychwanegir y swyddi gwag at gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar sydd mewn cyflogaeth, dengys fod o leiaf 32.8 swydd Athro Plant Byddar, gyda 2% ohonynt yn wag yn yr 11 o wasanaethau a ymatebodd.

Dylid nodi nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys Athrawon Plant Byddar sydd yn gweithio mewn lleoliadau eraill fel canolfannau mewnblaniadau clyw. Fe'n hysbyswyd bod yna 1.6 Athro Plant Byddar yn gweithio yn y lleoliadau hyn yng Nghymru. Hefyd, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn ysgol arbennig ar gyfer plant byddar gan nad oes ysgolion o'r fath yng Nghymru.

Unwaith eto, oherwydd y gyfradd ymateb isel, nid yw'n bosib sefydlu'n gywir a fu newid yn nifer cyffredinol yr Athrawon Plant Byddar o gymharu â blynyddoedd diweddar. Ond, er gwybodaeth, roedd yna o leiaf 66 o athrawon CALI yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar yn 2019.

Tabl 1: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol

	Yn gweithio'n bennaf fel Athro Plant Byddar peripatetig (cyfanswm a chanran)	Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau (cyfanswm a chanran)	Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)	Yn gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)	Swyddi Athro Plant Byddar yn gyffredinol (cyfanswm a chanran)
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol	15 (84%)	10.5 (84%)	1 (100%)	1 (100%)	27.5 (85%)
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	2.8 (16%)	1 (8%)	0 (0%)	0 (0%)	3.8 (12%)
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0 (0%)	1 (8%)	0 (0%)	0 (0%)	1 (3%)
Cyfanswm	17.8 (100%)	12.5 (100%)	1 (100%)	1 (100%)	32.3 (100%)

Edrychodd CRIDE ar sawl un o'r gwasanaethau a ymatebodd eleni a oedd wedi gweld newid i nifer yr Athrawon Plant Byddar o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelwyd bod, o'r 11 o wasanaethau a ymatebodd, un gwasanaeth (9%) wedi gweld cynnydd, naw gwasanaeth (82%) heb weld unrhyw newid tra bod un gwasanaeth (9%) wedi gweld lleihad.

Gofynnodd CRIDE a oedd gwasanaethau wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar neu athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf. Ni chofnododd unrhyw wasanaeth unrhyw anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol. Yn nhermau darparu athrawon llanw, cofnododd saith gwasanaeth (64%) anawsterau, un (9%) yn cofnodi dim anawsterau, gyda thri gwasanaeth (27%) yn nodi bod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt.

Roedd sylwadau gan wasanaethau yn cynnwys y themâu canlynol:

- Diffyg Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster priodol.
- Gorfod prynu amser gan awdurdodau cyfagos lle mae'r gallu ganddynt.
- Dywedodd un gwasanaeth ei fod yn gweithio tuag at gyfuno, i ddatblygu gwasanaeth rhanbarthol mwy gwydn.

RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir

Lleoliad gwasanaethau

Gofynnwyd i wasanaethau ble'r oeddent wedi'u lleoli. Roedd pob un o'r 11 gwasanaeth wedi'u lleoli o fewn yr awdurdod lleol.

Nifer y darpariaethau adnoddau

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y darpariaethau adnoddau (naill ai mewn ysgolion prif ffrwd neu arbennig) yn eu hardal. Roedd saith darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd o fewn y gwasanaethau a ymatebodd. Roedd gan chwe gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd yn eu hardal.

Roedd saith darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd. Roedd gan chwe gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd yn eu hardal.

Rhoddodd hyn gyfanswm o 14 darpariaeth adnoddau ledled Cymru wedi'u cofnodi gan yr 11 gwasanaeth.

Meini prawf cymhwyster/fframweithiau

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd unrhyw newidiadau wedi bod i'u dyraniad cymorth rhwng blynyddoedd academaidd 2018/19 a 2019/20. Adroddodd dau wasanaeth (18%) fod newidiadau wedi bod a naw (82%) dim newidiadau.

Lle cofnododd gwasanaethau fod newidiadau wedi bod, roedd sylwadau yn cynnwys:

- Anawsterau i recriwtio staff llanw a staff wedi'u hyfforddi'n llawn ar ôl i Athro Plant Byddar ymddeol.
- Darpariaeth adnoddau cynradd ac uwchradd yn cau mewn un gwasanaeth, gyda disgyblion yn derbyn cymorth peripatetig yn eu hysgolion prif ffrwd.

RHAN 4: Cwestiynau thematig: Ymyriadau cynnar i rieni plant byddar

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt yn darparu neu'n hwyluso gwahanol fathau o gefnogaeth i deuluoedd plant byddar o 0 i 4 oed.

Amlinellir y tabl isod a yw'r gwasanaethau yn defnyddio ymyriadau neu raglenni penodol ar gyfer gwahanol fathau o gefnogaeth, a/neu os yw cefnogaeth o'r fath yn rhan o'u cynnig craidd o gefnogaeth i deuluoedd. Mae'r gefnogaeth, ymyriadau, rhaglenni neu hyfforddiant penodol sy'n cael eu cynnig wedi'u crynhoi ar wahân yn Atodiad B.

Tabl 3: Cefnogaeth a ddarperir neu a hwylusir i deuluoedd plant byddar o 0 i 4 oed

Cefnogaeth	Ie – wedi'i darparu neu ei hwyluso	Na – heb ei darparu neu ei hwyluso	Os ie, y nifer a ddywedodd ei bod yn rhan o'i gynnig craidd
Gwybodaeth a chyngor ar glywed a thechnoleg clywed	11 (100%)	0 (0%)	9 (90%)
Cyfleoedd i gwrdd â rhieni plant byddar eraill	10 (91%)	1 (9%)	3 (33%)
Cyfleoedd i gwrdd ag oedolion/modelau rôl byddar	9 (82%)	2 (18%)	3 (38%)
Cefnogi teuluoedd gydag iaith lafar eu plant byddar	10 (91%)	1 (9%)	7 (88%)
Cefnogi teuluoedd gydag iaith arwyddion eu plant byddar	11 (100%)	0 (0%)	10 (91%)
Gwybodaeth a chyngor ar ddatblygiad plentyn	9 (82%)	2 (18%)	7 (88%)
Cyngor cyffredinol ar les cymdeithasol ac emosiynol plant byddar	11 (100%)	0 (0%)	8 (89%)
Rhaglen, cwrs neu ymyriad penodol ar ddatblygiad cymdeithasol neu emosiynol i blant byddar	5 (45%)	6 (55%)	3 (60%)
Cyngor ar reoli ymddygiad	9 (82%)	2 (18%)	8 (100%)
Cynghori neu gefnogaeth wedi'i thargeddi am les emosiynol rhieni/gofalwyr	3 (27%)	8 (73%)	2 (100%)
Cymorth i blant byddar sy'n pontio i leoliad/ysgol blynyddoedd cynnar	11 (100%)	0 (0%)	8 (80%)

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r ystod o heriau gwahanol wrth gefnogi teuluoedd plant byddar o 0 i 4 oed y cofnodwyd gan wasanaethau.

Tabl 4: Heriau wrth gefnogi plant byddar o 0 i 4 oed

Heriau	Ie – nifer y gwasanaethau (canran o wasanaethau)	Na - nifer y gwasanaethau (canran o wasanaethau)
Ymgysylltu â theuluoedd	1 (9%)	10 (91%)
Cysylltu â theuluoedd	1 (9%)	10 (91%)
Cwrdd ag anghenion teuluoedd sy'n siarad Cymraeg	1 (9%)	10 (91%)
Cwrdd ag anghenion teuluoedd sy'n siarad Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol	1 (9%)	10 (91%)
Cwrdd ag anghenion teuluoedd byddar sy'n defnyddio iaith arwyddion	2 (18%)	9 (82%)
Adnoddau/cyllid i gwrdd ag anghenion pob teulu y mae angen arnynt gymorth	4 (36%)	7 (64%)
Recriwtio staff gyda'r sgiliau perthnasol	2 (18%)	9 (82%)
Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i ddiweddarau sgiliau a gwybodaeth yn y maes hwn.	5 (45%)	6 (55%)
Dewisiadau neu ffactorau diwylliannol y teulu	1 (9%)	10 (91%)
Pellter daearyddol rhwng defnyddiwr a'r gwasanaeth	2 (18%)	9 (82%)
Arall	1 (9%)	10 (91%)

Lle dewiswyd 'arall', nododd y gwasanaeth y broblem o bellter daearyddol rhwng teuluoedd a theuluoedd eraill.

RHAN 5: Cwestiynau thematig: Cyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar

Gofynnwyd nifer o gwestiynau am gymorth peripatetig i bobl ifanc byddar mewn perthynas â chyngor gyrfaoedd a chymorth cyflogaeth.

Tabl 5: Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc byddar

	Ie	Na	Ansicr
Ymgysylltiad â chynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion ar gyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar	9 (90%)	1 (10%)	0 (0%)
Ymgysylltiad â chynghorwyr gyrfaoedd mewn colegau ar gyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar	3 (27%)	8 (73%)	0 (0%)
Darparu cyngor ar fynediad at leoliadau gwaith sy'n cael eu hymgymryd gan bobl ifanc byddar	5 (45%)	4 (36%)	2 (18%)
Gwybodaeth i bobl ifanc byddar am y gefnogaeth sydd ar gael trwy gynllun Mynediad at Waith i oedolion byddar	6 (55%)	4 (36%)	1 (9%)
Gwybodaeth i bobl ifanc byddar am eu hawliau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i addasiadau rhesymol yn y gweithle	7 (64%)	3 (27%)	1 (9%)

Hefyd gofynnwyd am ba adnoddau, os o gwbl, a ddefnyddir yng nghyswllt cyngor gyrfaoedd i blant byddar a/neu gefnogaeth wrth symud i mewn i gyflogaeth. Roedd ymatebion yn cynnwys:

- *Next Steps: Supporting Successful Transitions post-16* (Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar).
- *Supporting Achievement of Deaf Young People in Further Education* (Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar).
- Ymweliadau i Sioe Deithiol Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar.
- Canllawiau *Hearing Loss What Works* ar gyflogaeth a phontio.
- Gwybodaeth Mynediad at Waith.
- Adolygiadau pontio.
- Cyswllt gyda Gweithiwr Cymdeithasol i Bobl Fyddar.
- Gweithio gyda Gyrfa Cymru neu gynghorwyr gyrfaoedd lleol.
- Gweithio gydag asiantaethau eraill o ran canllaw Byddar-ddall.
- Mewn darpariaethau adnoddau, mae'r Athro Plant Byddar yn mynychu cyfarfodydd ac yn ymweld â disgyblion am yrfaoedd/coleg/prifysgol/leoliadau cyflogaeth.
- Mae disgyblion prif ffrwd yn derbyn cymorth gan Athro Plant Byddar ar gyfer trefniadau hygyrchedd prifysgol.
- Mynychu cyfarfodydd gyda theuluoedd.

RHAN 6: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiw sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), ymgynghorwyr, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr (NatSiP), cynbennaeth Ysgol Frank Barnes i Blant Byddar, Ysgol Mary Hare, y gwasanaeth addysg arbenigol i blant byddar yn Swydd Caergrawnt, Camden a Chaint, Prifysgol Caeredin, Prifysgol Leeds a Choleg Prifysgol Llundain.

Dyluniwyd a chrëwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Mae arolwg CRIDE yn defnyddio arolygon byrrach a llawn bob yn ail flwyddyn. Yn 2020, cyhoeddwyd arolwg byrrach gyda nifer o gwestiynau thematig.

Dosbarthir yr arolwg i wasanaethau ledled y DU a dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethu yng Nghymru ym mis Chwefror 2020 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE.

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy gwblhau dogfen Word o'r arolwg. Ymgwymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffai CRIDE ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr, a ddefnyddir i lywio cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisiau'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â cride@ndcs.org.uk.

Atodiad A: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Mae'r tabl hwn yn amlinellu rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu'r ffigurau am nifer y plant ac Athrawon Plant Byddar o Ionawr 31 2020 ymlaen.

Mae'r ffigurau am Athrawon Plant Byddar yn cynnwys pob Athro Plant Byddar mewn swydd, wedi'u cofnodi gan wasanaethau, yn cynnwys Athrawon Plant Byddar sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol (CG) ac Athrawon Plant Byddar sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y CG neu sy'n bwriadu hyfforddi o fewn tair blynedd.

Tabl 6: Data yn ôl awdurdod lleol

	Nifer y plant â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu	Nifer y plant â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos y gwasanaeth	Nifer y plant byddar â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos y gwasanaeth	Athrawon Plant Byddar sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol	Athrawon Plant Byddar sydd mewn darpariaeth adnoddau	Athrawon Plant Byddar yn bennaf mewn ysgol neu goleg arbennig, nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol	Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio'n hyblyg
Pen-y-bont	211	267	56	1	1	0	1
Sir Gaerfyrddin	159	171	37	2.2	3	0	0
Ceredigion	57	77	19	0.8	1	0	0
Conwy	65	80	15	1	0	0	0
Gwynedd ac Ynys Môn	161	92	11	2.6	0	0	0
Merthyr Tudful	54	39	9	1	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	110	203	93	2	2	0	0
Sir Benfro	64	83	19	1	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	143	189	12	3.2	1	1	0
Dinas Abertawe	260	303	43	2	1.5	0	0
Bro Morgannwg	100	135	45	1	2	0	0

Atodiad B: Cymorth, rhaglenni neu hyfforddiant ymyriad cynnar a gynigwyd gan wasanaethau i rieni sydd â phlant byddar o 1 i 4 oed

Mae'r cymorth, ymyriadau, rhaglenni neu hyfforddiant a gynigwyd wedi'u rhestru isod (gyda nifer y gwasanaethau a nododd hyn mewn cromfachau):

Gwybodaeth a chyngor ar glywed a thechnoleg clywed:

- Digwyddiadau i deuluoedd (1)
- Cefnogaeth unigol (3)
- Gweithio amlddisgyblaethol (2)
- Adnoddau NDCS (3)
- Sioe Deithiol NDCS (1)
- Cyfeirio at fudiadau eraill (1)
- Hyfforddi ar gyfer lleoliadau (1)

Cyfleoedd i gwrdd â rhieni plant byddar eraill:

- Cefnogaeth bwrpasol (1)
- Grŵp plant (4)
- Digwyddiadau i deuluoedd (2)
- Cymdeithas Plant Byddar leol (1)
- Gweithio amlddisgyblaethol (1)
- Digwyddiadau NDCS (3)
- *Feeling Good* NDCS (1)
- *Messy Play* NDCS (1)
- Adnoddau NDCS (1)
- Sioe Deithiol NDCS (2)
- Bore coffi rhieni (2)
- Hyfforddiant (1)

Cyfleoedd i gwrdd ag oedolion/modelau rôl byddar:

- Cefnogaeth bwrpasol (6)
- Grŵp plant (2)
- Staff byddar yn y gwasanaeth (1)
- Digwyddiadau NDCS (2)
- Sioe Deithiol NDCS (2)
- Cyfeirio at fudiadau eraill (4)
- Hyfforddiant (1)
- Gweithio gyda Modelau Rôl Byddar (2)

Cefnogi teuluoedd gydag iaith lafar eu plant byddar:

- *Baby Beats* (1)
- *Early Support Monitoring Protocol* (2)
- Dehonglwyr (1)
- Gweithio amlddisgyblaethol (3)
- Cyfeirio at fudiadau eraill (1)
- Cymorth i blant ar gael yn Gymraeg (1)
- *WellComm* (2)

Cefnogi teuluoedd gydag iaith arwyddion eu plant byddar:

- Hyfforddiant pwrpasol (1)
- *Early Support Monitoring Protocol* (1)
- Gweithio amlddisgyblaethol (1)
- Iaith Arwyddion i'r Teulu NDCS (2)
- Adnoddau NDCS (1)
- Adnoddau wedi'u rhannu (3)
- Cyfeirio at fudiadau eraill (6)

Gwybodaeth a chyngor ar ddatblygiad plentyn:

- *Early Support Monitoring Protocol* (3)
- Gweithio amlddisgyblaethol (1)
- Cyfeirio at fudiadau eraill (1)

Cyngor cyffredinol ar les cymdeithasol ac emosiynol plant byddar:

- *Early Support Monitoring Protocol* (3)
- Gweithio amlddisgyblaethol (2)
- Adnoddau NDCS (1)

Rhaglen, cwrs neu ymyriad penodol ar ddatblygiad cymdeithasol neu emosiynol i blant byddar:

- *Baby Beats* (1)
- *Early Support Monitoring Protocol* (1)
- Gweithio amlddisgyblaethol (2)
- *Healthy Minds* NDCS (2)
- Adnoddau NDCS (1)
- Cyfeirio at fudiadau eraill (1)

Cyngor ar reoli ymddygiad:

- *Early Support Monitoring Protocol* (1)
- Gweithio amlddisgyblaethol (2)
- Adnoddau NDCS (1)
- Atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol arbenigol (1)
- Cyfeirio at fudiadau eraill (1)

Cynghori neu gefnogaeth wedi'i thargeddi am les emosiynol rhieni/gofalwyr:

- *Early Support Monitoring Protocol* (1)
- Gweithio amlddisgyblaethol (1)
- Cyfeirio at fudiadau eraill (1)

Cymorth i blant byddar sy'n pontio i ysgol/lleoliad blynyddoedd cynnar:

- Gweithio amlddisgyblaethol (1)
- Hyfforddiant i leoliadau (3)
- Ymweliadau/cynlluniau pontio (3)

Cefnogaeth, ymyriadau, rhaglenni neu hyfforddiant arall:

- *Chit Chat (Cochlear & Ear Foundation)*
- Deunyddiau Cymorth Cynnar (& *Developmental Journal for Deaf Babies & Children* (Cymru))
- Digwyddiadau/Diwrnodau Rhyngweithio i Deuluoedd
- Cefnogaeth Cymorth Radio gartref
- Swyddog Teulu NDCS
- *Listen, Learn & Talk (Cochlear)*
- Llyfrau Arwyddo Makaton
- Graddfa Ddatblygiadol McArthur
- Cynllun a thargeddi aml-asiantaeth i ddisgyblion o 0 i 4 oed
- Grŵp chwarae synhwyrdd
- Adnoddau ar gyfer canu ynghyd a'n llyfrau/taflenni arwyddo ein hunain
- Pecyn *WellComm* lleferydd ac iaith i gefnogi sgiliau iaith/cyfathrebu